# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 5 Chwefror 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
3 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Darpariaeth Band Eang

**C7 Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o ddarpariaeth band eang sydd ar gael yng Nghymoedd y De? (OAQ22164)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Drwy weithredu'r rhaglen Band Eang Cymru ledled Cymru mae amryw weithredoedd yn mynd rhagddynt sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Gymoedd y De. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y cymhorthdal lloeren, sy'n darparu cymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint mewn ardaloedd lle nid oes mynediad fforddiadwy i fand eang daearol ar hyn o bryd.
- Adnoddau arddangos profi cyn prynu, a leolwyd yng nghanolfannau cymorth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau dysgu TGCh a meddygfeydd teuluol sy'n elwa o'n buddsoddiad i sefydlu rhwydweithiau craidd rhwydwaith dysgu gydol oes Cymru a rhwydwaith digidol ledled Cymru.

Yn ogystal, cynhelir nifer o weithgareddau eraill. Cyflwynwyd papur yn disgrifio'r gweithgareddau hyn a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 30 Ionawr, ac anogaf Aelodau i'w ddarllen i ganfod manylion pellach o'r hyn a gyflawnir.

### Creu Swyddi yng Nghymoedd y De

**C8 Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar greu swyddi yng Nghymoedd y De? (OAQ22165)

**Andrew Davies:** Y mae Tîm Cymru yn gweithio i hybu a chynnal buddsoddiadau ac i greu swyddi yng Nghymoedd y De, a llywir ei weithredoedd gan 'Cymru'n Ennill'. Mae'r ardal gyfan yn elwa o statws Amcan 1, sy'n sicrhau'r lefel uchaf posibl o gymorth. Ers Ebrill 2002, derbyniodd 154 o gwmnïau yng Nghymoedd y De gymorth werth dros £40 miliwn drwy grantiau'r Cynulliad. Dylai hwn helpu i greu ymron i 2,600 o swyddi newydd a diogelu 899 o swyddi eraill. Ers Rhagfyr 1999, mae'r gyfradd diweithdra o ran nifer yr hawlwyr yn yr ardal wedi disgyn 20 y cant, ac yn Rhagfyr 2002 12,300 oedd yn ddiwaith.

### Datblygu Economaidd yng Nghanol De Cymru

**C9 David Melding:** Sut y mae'r Gweinidog yn hyrwyddo datblygu economaidd yng Nghanol De Cymru? (OAQ22218)

**Andrew Davies:** Gweithreda Tîm Cymru bolisïau 'Cymru'n Ennill' er mwyn hybu a chynnal buddsoddi ac i greu swyddi yng Nghanol De Cymru. Mae rhan helaeth o'r ardal yn elwa o statws Amcan 1, sy'n sicrhau'r lefel uchaf posibl o gymorth. Ers sefydlu'r Cynulliad derbyniodd 195 o gwmnïau yng Nghanol De Cymru gymorth drwy grantiau'r Cynulliad werth ymron i 375 miliwn. Dylai hyn helpu i greu dros 7,600 o swyddi newydd a diogelu 2,900 o swyddi eraill.

**Polisïau Datblygu Economaidd**

**C10 Nick Bourne:** Sut y mae polisïau datblygu economaidd y Gweinidog wedi rhoi budd i ganolbarth a gorllewin Cymru? (OAQ22230)

**Andrew Davies:** Y mae ein polisïau datblygu economaidd yn gweithio'n dda yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Yn Rhagfyr 2002 yr oedd y gyfradd diweithdra o ran nifer yr hawlwyr ymron i 30 y cant yn is nag yr oedd yn Rhagfyr 1999, gostyngiad mwy sylweddol nag a welwyd yng Nghymru fel uned gyfan. Ers Gorffennaf 1999, i gefnogi buddsoddiadau gan y sector preifat, dyrannodd Llywodraeth y Cynulliad grantiau werth ymron i £40 miliwn i 122 o gwmnïau, gyda buddsoddiadau cyfalaf cysylltiedig werth ymron i £145 miliwn. Dylai'r prosiectau hyn greu bron 2,600 o swyddi newydd a diogelu 1,850 o swyddi eraill.

**Polisïau Economaidd**

**C11 Nick Bourne:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod Cymru gyfan yn cael budd o'i bolisïau economaidd? (OAQ22231)

**Andrew Davies:** 'Cymru'n Ennill' yw strategaeth datblygu economaidd cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ei nod yw cynyddu ffyniant Cymru gyfan. Fe'i gweithredwyd ers tro a gwnaethpwyd cryn gynnydd o ran y 71 o bwyntiau gweithredu yn y strategaeth.

**Systemau Cyfrifiadurol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**

**C12 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynnydd yn y cyllid i wella systemau cyfrifiadurol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru? (OAQ22189)

**Andrew Davies:** Sicrhaodd y Llywodraeth gyllid digonol ar gyfer system gyfrifiadurol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

**Effaith Cysylltiadau Trafnidiaeth Gwael ar Ddatblygu Economaidd**

**C13 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddweud beth y mae'n ei wneud i leihau effaith cysylltiadau trafnidiaeth gwael ar ddatblygu economaidd Cymru? (OAQ22237)

**Andrew Davies:** Y mae cysylltiadau trafnidiaeth da yn chwarae rôl economaidd bwysig ac fe'u hystyrir yn rhaganghenraid ar gyfer datblygu economaidd. Cydnabyddir hyn yn 'Cymru'n Ennill', sy'n amlygu pwysigrwydd cael coridorau trafnidiaeth strategol gwell ar gyfer economi Cymru. Cefnogir yr ymrwymiadau a nodwyd yn 'Cymru'n Ennill' gan rhaglen y cefnffyrdd a chynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd y rhaglen grantiau trafnidiaeth, sy'n mynd i'r afael ag anghenion economaidd penodol Cymru yn uniongyrchol.

*Tynnwyd cwestiwn 14 (OAQ22170) yn ôl.*

**Band Eang yn Nelyn**

**C15 Alison Halford:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hybu'r nifer sy'n manteisio ar gyfleusterau band eang yn Nelyn? (OAQ22236)

**Andrew Davies:** Mae ystod eang o weithgareddau wedi cael eu datblygu drwy weithredu'r rhaglen Band Eang Cymru ar draws Cymru sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Delyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y cymhorthdal lloeren, sy'n darparu cymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint mewn ardaloedd lle nid oes mynediad fforddiadwy i fand eang daearol ar hyn o bryd.
- Adnoddau arddangos profi cyn prynu, a leolwyd yng nghanolfannau cymorth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau dysgu TGCh a meddygfeydd teuluol sy'n elwa o'n buddsoddiad i sefydlu rhwydweithiau craidd rhwydwaith dysgu gydol oes Cymru a rhwydwaith digidol ledled Cymru.
- Trafodaethau cyfredol gyda Fforwm Economaidd Gogledd Cymru i sicrhau lleoli cynrychiolydd Band Eang yng ngogledd Cymru.
- 

Yn ogystal, cynhelir nifer o weithgareddau eraill. Cyflwynwyd papur yn disgrifio'r gweithgareddau hyn a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 30 Ionawr, ac anogaf Aelodau i'w ddarllen i ganfod manylion pellach o'r hyn a gyflawnir.

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid

### Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Monitro Gwariant)

**C8 Helen Mary Jones:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i wella system y Cynulliad o fonitro gwariant cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? (OAQ22197) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Mae gwariant cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn cael ei fonitro'n barhaus fel rhan o'm trefniadau rheoli cyllid. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu systemau monitro cyllidebau cyrff a noddir gan y Cynulliad yn rheolaidd yn ystod y busnes arferol a drafodir rhwng is-adrannau noddi a'r cyrff perthnasol.

*Atebwyd cwestiwn 9 (OAQ22209) a chwestiwn 10 (OAQ22211) yn y Cyfarfod Llawn.*

### Arian ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**C11 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith ei chyllideb ddiweddaraf ar yr arian sydd ar gael ar gyfer y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? (OAQ22192)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at Gofnod y Trafodion swyddogol a'm datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar y gyllideb derfynol ar 6 Tachwedd. Manteisiodd y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o gynnydd o 11 y cant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-04 dros 2002-03.

### Proses y Fenter Cyllid Preifat

**C12 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog gyflwyno sylwadau ar ba mor eglur yw proses y fenter cyllid preifat? (OAQ22205)

**Edwina Hart:** Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn dilyn canllawiau  clir a thryloyw pan yn caffael prosiectau PFI. Byddwch hefyd yn ymwybodol fy mod wedi cymryd camau i sicrhau cyhoeddiad ehangach o achosion busnes terfynol i'r cynlluniau hynny a gefnogir yn ariannol gan y Cynulliad.

### Ariannu'r Heddlu

**C13 Nick Bourne:** Pa drafodaethau pellach y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r Swyddfa Gartref ynghylch ariannu'r heddlu? (OAQ22207)

**Edwina Hart:** Cyfarfûm â'r Aelod Seneddol, John Denham, ym mis Rhagfyr i drafod ariannu'r heddlu. O ganlyniad i'r trafodaethau hynny, sicrheais ymrwymiad gan y Swyddfa Gartref i ddarparu £5 miliwn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw awdurdod yn disgyn o dan y lefel ariannu. Fy mhrif bryder yw y dylai awdurodau heddlu Cymru gael eu hariannu'n gywir ac yn unol â'r awdurdodau cyfatebol yn Lloegr.

### Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr

**C14 Peter Black:** Pa adnoddau canlyniadol y mae'r Cynulliad yn rhagweld y bydd yn eu cael oddi wrth Lywodraeth y DU mewn perthynas â chymorth ariannol i fyfyrwyr? (OAQ22210)

**Edwina Hart:** Fel yr esboniais yn fy ateb i'ch cwestiwn cynharach heddiw, mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU ynglyn â goblygiadau polisi ac adnoddau datganoli cyllid myfyrwyr i Gymru.

### Prosiectau'r Fenter Cyllid Preifat

**C15 Elin Jones:** A yw'r Gweinidog yn ymgynghori â defnyddwyr presennol darpar ddefnyddwyr gwasanaethau cyn iddi roi sêl ei bendith i brosiectau menter cyllid preifat? (OAQ22196)

**Edwina Hart:** Mae ymgynghori â rhanddeiliaid yn rhan bwysig o'r broses PFI. Disgwyliaf i'r partïon sy'n gysylltiedig â'r contract i gynnal yr ymgynghoriad ac i ddarparu tystiolaeth o gefnogaeth ar ddechrau'r achos busnes a chyn fy nghymeradwyaeth derfynol o'r achos busnes llawn.